# Cytûn yn y Sioe Fawr a’r Eisteddfod

Yn ôl ein harfer bydd gan Cytûn bresenoldeb yn y ddau ddigwyddiad cenedlaethol hwn, gan geisio bod yn dystiolaeth yn enw’r eglwysi a’r enwadau.


Os byddwch yn mynd i gyfeiriad Llanelwedd ar gyfer y Sioe, cofiwch alw i’n gweld ar res C, lle bydd ’na baned a theisen gri yn disgwyl amdanoch. Bydd gwasanaeth byr bob dydd am 11.00, a chyfle am sgwrs a seiat. Bydd dewis o lyfrau Cymraeg a Saesneg ar werth, ynghyd â gweithgareddau i blant.

Eleni, presenoldeb llai o ran maint i’r arfer fydd ’na ar faes yr Eisteddfod, gan nad yw gofod yn caniatáu i ni gael ein stondin fawr arferol. Galwch i’n gweld serch hynny, a bydd detholiad o lyfrau newydd a chardiau Nadolig ar gael gennym. Oddi yno, fe wnawn eich cyfeirio at eglwys St Catherine, sy’n llai na 5 munud o daith ar droed, dros y bont droed ac i gyfeiriad y stryd fawr. Yno byddwn yn cynnig paneidiau yn ddyddiol, yn cynnal gwasanaethau dyddiol am 1.00 bob prynhawn ac yna ambell sesiwn a lansiad llyfr. Bydd yna arddangosfeydd hefyd yn yr eglwys, yn dangos gwaith nifer o fudiadau Cristnogol, ynghyd â sioe flodau ac arddangosfa o luniau ffenestri lliw hynafol. Mae croeso i deuluoedd alw i mewn, a bydd digon o ddarpariaeth ar gyfer plant o bob oed.

Bydd croeso mawr yn eich disgwyl felly yn eglwys St Catherine bob dydd o Sadwrn, 3 Awst, tan Sadwrn, 10 Awst, rhwng 11.30 y bore a 5.30 y pnawn.

Cytûn
Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
Churches Together in Wales

**Galwch i’n gweld yn Eglwys St Catherine**




**Ar agor bob dydd 3–10 Awst rhwng 11.30 a 5.30**
(12.30–5.30 ddydd Sul)

## Croeso cynnes i bawb

**Gweithgareddau i blant**

**Addoliad bob dydd am 1.00**

**Stondinau ac arddangosfeydd**

**Cyfle i drafod cwestiynau mawr bywyd a ffydd**


**Arddangosfa flodau a ffenestri lliw hanesyddol yn adrodd hanes Cristnogaeth yng Nghymru**

AM DDIM I BAWB

PANED A THEISEN GRI
**AM DDIM**
*Croeso cynnes i bawb*

Daeth gwersi’r ysgol Sul i ben dros yr haf, ac rydym yn ddiolchgar i Denzil John am ei gyfraniadau gwerthfawr ar sail ei gyfrol *Gair Duw ar Waith*.

Bu’r myfyrdodau dros y flwyddyn ddiwethaf yn gyfle inni edrych ar y gwaith ymarferol sy’n cael ei gyflawni yn enw’r eglwysi.




BBC radio cymru

**Radio Cymru**
***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 21 Gorffennaf, am 7:30yb a 16:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Trystan Lewis

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 21 Gorffennaf, am 12yp**
Oedfa dan ofal Wyn Thomas, Dre-fach Felindre a Thir Dewi